

"Rydw i wir wedi mwynhau astudio Celf eleni. Rwyf wedi mwynhau dysgu sgiliau newydd, ac astudio nifer o artistiaid ynghyd â gweithio ar fy narn terfynol."

Beca Davies



# Celf

## Pam astudio Celf?

Mae Celf, Crefft a Dylunio yn gwrs ysbrydoledig ac amrywiol dros ben, gyda chyfle i astudio agweddau ymarferol a hanes celf drwy gyfryngau a phrosesau amrywiol sy'n arwain at ganlyniadau dau a/neu dri dimensiwn. Gall dysgwyr astudio disgyblaethau megis Dylunio Tecstilau, Graffeg, Printio, Dylunio mewn Tri Dimensiwn, Celfyddyd Gain a Ffotograffiaeth. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy ymweld ag orielau celf, mynd ar deithiau tramor a mynychu gweithdai gan artistiaid.

## Gofynion y cwrs

TGAU Gradd C neu uwch mewn Celf, Crefft a Dylunio.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**Uned 1**: Ymholiad Creadigol Personol (40% o'r cymhwyster) Mae'r Ymholiad Personol Creadigol yn cynnwys project sylfaen dros ddau dymor sy'n arwain at bortffolio o waith cyd-destunol ac ymarferol sy'n seiliedig ar thema bersonol, ystyrlon a ddewiswyd yn annibynnol gan y dysgwr.

### Uwch

**Uned 2:** Ymchwil personol (36% o'r cymhwyster) Mae'n cynnwys prif bortffolio o waith cyd-destunol ac ymarferol sy'n seiliedig ar thema sydd ag arwyddocâd personol. Cefnogir y portffolio gan ddarn o waith ysgrifenedig estynedig nad yw'n llai na 1000 o eiriau sy'n rhan o'r ymchwil.

**Uned 3:** Aseiniad wedi'i osod yn allanol (24% o'r cymhwyster) – Mae'n cynnwys cyfnod o waith ymchwil o flaen llaw a gwaith arbrofi ymarferol sy'n seiliedig ar un thema o ddetholiad gosod, sy'n arwain at arholiad ymarferol 15 awr o hyd (Canlyniad Terfynol).

Bydd pob uned yn cael ei hasesu yn yr ysgol a'i safoni'n allanol.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Bydd ennill gradd dda mewn Lefel A Celf yn agor drysau i yrfaoedd yn y meysydd canlynol: Celfyddyd Gain, Cerflunydd, Dylunydd Cynnyrch, Dylunydd Graffeg, Darlunydd, Dylunydd Ffasiwn/Tecstilau, Pensaer, Therapydd Celf, Dylunydd Gemwaith, Curadur Oriel, Athro/Athrawes Celf, Animeiddiwr a Dylunydd Mewnol.